Cyfleoedd y Bwrdd a Phwyllgorau

Mae ein bwrdd a'n pwyllgorau yn helpu i wneud penderfyniadau ar ble i fuddsoddi arian.

Y Bwrdd

Mae Bwrdd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cynnwys Cadeirydd a hyd at 14 ymddiriedolwr, a benodwyd gan y Prif Weinidog.

Y Bwrdd:

- yn pennu ein fframwaith strategol a pholisi
- yn pennu ein strategaeth gorfforaethol a'n cynllun busnes blynyddol
- gwneud penderfyniadau ar gyllid CGDG ac ar grantiau Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol dros £5miliwn ac ar ein hymgyrchoedd strategol ledled y DU.

Cyfleoedd Bwrdd

Wrth i ni barhau i weithredu ein strategaeth uchelgeisiol Treftadaeth 2033, rydym yn chwilio am Gadeirydd newydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Dyma gyfle prin i wneud gwahaniaeth parhaol dros dreftadaeth, cymunedau a lleoedd ledled y DU. Dysgwch fwy a chyflwynwch gais ar wefan llywodraeth y DU.

Pwyllgorau

Mae gennym bwyllgorau wedi'u lleoli yn:

- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru
- Gogledd Lloegr
- Canolbarth a Dwyrain Lloegr
- Llundain a De Lloegr

Y pwyllgorau sy'n gwneud penderfyniadau ar grantiau rhwng £250,000 a hyd at £10m.

Bod yn aelod o bwyllgor

Yn y fideo hwn, mae aelodau pwyllgor ledled y DU yn egluro beth mae ein chwe phwyllgor Cronfa Treftadaeth yn ei wneud a pham y dylech ymgeisio i ymuno ag un:

Remote video URL

Rydym wedi ymgorffori cynnwys o YouTube yma. Gan y gall YouTube gasglu data personol ac olrhain eich ymddygiad gwylio, byddwn ond yn llwytho'r fideo ar ôl i chi gydsynio i'w defnydd o gwcis a thechnolegau tebyg fel y disgrifir yn eu polisi preifatrwydd. Byddwn hefyd yn gosod cwci i gofio eich dewis.

Ydw, rwy'n cytuno Gwyliwch ar YouTube

Cyfleoedd pwyllgor

Nid oes rolau gwag ar hyn o bryd.

Clywed y diweddaraf am gyfleoedd

Dilynwch ni ar LinkedIn a chofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein Bwrdd a'n cyfleoedd recriwtio pwyllgorau diweddaraf. Gallwch hefyd anfon e-bost atom i gofrestru eich diddordeb.